Ffigwr 1 Parc Bellevue

Strategaeth Mannau Agored

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

Cefndir a Chyd-destun

Beth rydym yn ei olygu gyda Mannau Agored?

Diffinnir mannau agored fel unrhyw fan awyr agored sydd yn cael ei ystyried i fod gwerth cyhoeddus. Mae'r holl fannau hyn yn darparu gwerth iechyd, lles a hamdden i bobl sydd yn byw gerllaw, yn ogystal â darparu gwerth ecolegol i amrywiaeth o rywogaethau. Mae'r mannau agored sydd yn cael eu hystyried o fewn cwmpas yr adroddiad hwn i'w gweld isod.

<u>Parciau gwledig / parciau / gerddi</u>

Ardaloedd mawr o fannau agored, gyda'r mwyafrif yn hygyrch i'r cyhoedd, yn agos at gysylltiadau cludiant cyhoeddus ac yn darparu ystod o gyfleusterau a nodweddion yn cynnwys manteision hamdden, ecolegol, tirlun, diwylliannol neu isadeiledd gwyrdd. Gall y mannau agored hyn hefyd gynnwys ardaloedd ar gyfer hamdden dŵr. Enghraifft, Parc Acton.

<u>Mannau gwyrdd anffurfiol / naturiol</u>

Mae mannau gwyrdd anffurfiol a naturiol yn rhoi cyfle i hyrwyddo hamdden ystyrlon a diogel. Mae'r deipoleg mannau agored yn cynnwys ystod eang o ddefnydd, gan gynnwys ardaloedd coetir, ardaloedd gwlyptir, dolydd rhostir. Enghraifft, Fenn's Moss.

<u>Caeau / meysydd chwaraeon awyr agored</u>

Mannau chwaraeon awyr agored gan gynnwys holl gaeau chwarae a chwaraeon ffurfiol ar gyfer nifer o weithgareddau chwaraeon gwahanol (gan gynnwys rygbi,

pêl-droed, pêl-rwyd, hoci, tenis a phêl-fasged). Nid yw hyn yn cynnwys darpariaeth na chyfleusterau chwaraeon tu mewn. Enghraifft, Y Waun Bradle.

Mannau gwyrdd cyffredinol ar gyfer amwynder

Yn fwy cyffredin (ond nid yn gyfyngedig) mewn ardaloedd preswyl gan gynnwys mannau hamdden, mannau gwyrdd anffurfiol mewn ac o amgylch tai, neu feysydd pentrefi.

Mannau chwarae

Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc, ac yn cynnwys ardaloedd chwarae, parciau sglefrio, MUCAs ac ardaloedd mwy anffurfiol. Yn gyffredinol mae'r rhain yn ymddangos o fewn mathau eraill o fannau gwyrdd (e.e. parciau gwledig).

Rhandiroedd

Mae hyn yn cynnwys rhandiroedd sy'n eiddo i'r Cyngor lle mae plot o dir yn cael ei rentu gan unigolyn ar gyfer tyfu ffrwythau, llysiau neu flodau.

Mynwentydd a'r Amlosgfa

Mynwentydd ac amlosgfa sy'n hygyrch i'r cyhoedd

Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Hawliau tramwy cyhoeddus yw'r hawliau ar draws tir sydd ar gael i'r cyhoedd, ac sy'n eu galluogi i basio heibio ar unrhyw adeg maent yn ei ddewis.

Llain las

Llain las yw stribed o laswellt neu blanhigion ac weithiau coed, sydd wedi'u lleoli ar ochr y briffordd.

Cyd-destun Statudol a Deddfwriaethol

Mae'r mannau agored ledled Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (CBSW) yn cael eu rheoli gan nifer o ddeddfwriaethau. Bydd y Strategaeth Mannau Agored yn dangos sut y byddwn yn bodloni'r rhain i gyd yn ein hadran Ein Hamcanion.

Un o'r meysydd pwysicaf o ddeddfwriaeth yw rhwymedigaeth CBSW i wella'r amgylchedd naturiol. Mae hwn yn dod a'n Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r Ddeddf gyntaf yn canolbwyntio ar wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, ac mae'r ail ddeddf yn canolbwyntio ar sicrhau ecosystemau iach, gwydn a chynhyrchiol. Fodd bynnag, mae'r ddwy Ddeddf yn gofyn bod awdurdodau cyhoeddus yn cynnal a gwella amgylchedd bioamrywiol a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau ar yr un pryd. Yn ogystal, mae Adran 6 yn Rhan 1 Deddf

yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gofyn bod awdurdodau lleol yn cynnwys ystyriaeth o fioamrywiaeth ac ecosystemau wrth gynllunio busnes a meddwl yn gynnar. Mae ein hymrwymiad i fodloni'r amcanion hyn yn hysbysu'r penderfyniad i ddatgan Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol ym mis Medi 2019.

Mae mynediad i fannau agored yn cael ei gydnabod i fod yn bwysig yn rhyngwladol i ddatblygu plant. Creodd Erthygl 31 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) hawl penodol ar gyfer pob plentyn i gael seibiant a hamdden, i ymgysylltu mewn gweithgareddau chwarae a hamdden sy'n briodol i'w hoedran, ac i gymryd rhan yn rhydd mewn bywyd diwylliannol a'r celfyddydau. Mi wnaeth hyn annog Llywodraeth Cymru i roi canllaw statudol i awdurdodau lleol o'r enw Cymru: gwlad lle mae cyfle i chwarae. Mae'r ddogfen hon yn gofyn bod yr awdurdodau lleol yn asesu a sicrhau cyfleoedd digonol i blant chwarae yn eu hardaloedd. Mae nifer o'r ardaloedd chwarae hyn wedi eu lleoli o fewn ein mannau agored sydd yn cynnig cyfleoedd lles, chwarae ac addysg i blant. Felly, mae'r statud hwn yn dod o fewn cylch gwaith y strategaeth hon.

Hefyd mae cydnabyddiaeth bod gan bobl hawl cael mynediad a defnyddio'r amgylchedd ehangach y tu allan i'n hardaloedd trefol. Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981) yw'r brif ddeddfwriaeth sydd yn diogelu anifeiliaid, planhigion a rhywogaethau yn y DU ac yn amlinellu ardaloedd cadwraeth natur benodol megis Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Fodd bynnag, mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981) hefyd yn amlinellu Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Mae hyn yn rhoi'r hawl i'r cyhoedd i ddefnyddio llwybrau a nodwyd, llwybrau ceffylau a chilffordd agored i bob traffig. Cafodd hyn ei ymestyn gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (2000) a greoedd cilffyrdd cyfyngedig a chyflwyno hawliau tramwy newydd ar gyfer hamdden awyr agored mewn cefn gwlad agored ac ar dir comin. Er bod nifer o Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar dir preifat, CBSW sydd yn gorfod cynnal Hawliau Tramwy Cyhoeddus dan Ddeddf Priffyrdd (1980) ac i sefydlu Fforymau Mynediad Lleol dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (2000). Felly, byd strategaeth Mannau Agored yn rhoi ystyriaeth i'r rhain fel rhan o'n mannau agored gan fod ein cwsmeriaid yn eu mwynhau, ac mae gennym y gallu i gyflawni gwaith ar y mannau hyn.

Mae ein mannau tyfu sy'n cael eu hystyried yn fannau agored yng nghwmpas y strategaeth hon, yn cael ei rheoli hefyd gan eu deddfwriaeth eu hunain sy'n cael ei ddefnyddio yn ychwanegol i'r rhai a nodwyd uchod. Mae Deddf Tyddynnod a Rhandiroedd (1908) yn gofyn bod awdurdodau lleol yn darparu digon o randiroedd ar gyfer pobl yn y fwrdeistref. Roedd y mannau hyn hefyd yn cael eu diogelu gan Ddeddf Rhandiroedd (1925). Roedd y Ddeddf hon yn nodi nad oedd rhandiroedd y Cyngor yn cael eu gwerthu na thrawsnewid i ddefnydd arall heb ganiatâd gweinidogol. Roedd hyn yn sicrhau bod y mannau hyn yn cael eu cynnal fel mannau agored.

Crynodeb o'r hyn mae pobl Wrecsam wedi'i ddweud wrthym ni
<u>Arolwg carbon 2022</u>

- Roedd 86% o bobl yn teimlo y dylem wneud popeth y gallwn i greu gwyrddni yn amgylchedd trefol canol dinas.
- Roedd 57% o bobl yn teimlo y dylem geisio lleihau faint rydym yn torri'r glaswellt mewn parciau ac ar hyd ymyl ein ffyrdd.
- Dywedodd 80% o bobl yr hoffent weld fwy o goed, llwyni ffrwythau, gwrychoedd a dolydd blodau gwyllt ble maent yn byw.

Asesiad Lles BGC

Dyma farn dinasyddion ar sut y gellir gwella lles amgylcheddol Bwrdeistref Sirol Wrecsam:

Cadw, gwarchod, hyrwyddo a gwella mynediad at fannau gwyrdd. Llai o adeiladu ar fannau gwyrdd, yn enwedig yng nghanol y dref. Defnyddio safleoedd tir llwyd pan fo hynny'n bosib, cyn ystyried mannau gwyrdd. Mynediad da at fannau gwyrdd ar gyfer lles, datblygu sgiliau a hyrwyddo cydlyniant cymunedol. Hyrwyddo mannau gwyrdd a llwybrau cerdded lleol i leihau teithiau mewn ceir a'u gwneud yn fwy hygyrch i bawb. Annog mwy o fioamrywiaeth.

Ein Gweledigaeth

Mae Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn le gydag ystod amrywiol o fannau agored sy'n hygyrch ac yn cael eu rheoli'n briodol (yn ôl eu defnydd bwriadol) er mwyn sicrhau eu bod yn lân, diogel, yn addas i'r diben ac yn darparu'r cyfleoedd gorau ar gyfer effeithiau amgylcheddol cadarnhaol.

Ein Hamcanion

- Annog ystod amrywiol o fannau agored cynaliadwy o ansawdd uchel a fydd yn helpu i gyflawni anghenion iechyd a lles y rhai sy'n byw a gweithio o fewn Wrecsam.
- Sicrhau fod pobl, a chymunedau â mynediad at nifer o ardaloedd mannau agored mewn ystod o leoliadau amrywiol, ac ar gyfer defnydd amrywiol ar draws y Fwrdeistref Sirol.
- Diogelu, rheoli a gwella ein mannau agored er budd bioamrywiaeth ac i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth; yn ogystal â gwella manteision cymdeithasol ac economaidd.
- Sicrhau fod ein mannau agored ac unrhyw isadeiledd cysylltiedig yn ddiogel, wedi'i reoli'n briodol ac yn addas ar gyfer y defnyddwyr bwriadol.
- Gweithio gyda phobl leol, cymunedau a phartneriaid i ganfod cyfleoedd i wella ein mannau agored, ac i wella mynediad a chysylltiad i fannau agored.
- Rheoli, gwarchod a gwella mannau agored y Fwrdeistref Sirol mewn modd cynaliadwy i sicrhau buddiannau ecolegol, cymdeithasol ac economaidd.

Manteision o fannau agored a reolir yn briodol

Amgylcheddol

- Lleihau llygredd a sŵn
- Atafaelu allyriadau carbon
- Lleihau tymheredd

- Gwella ansawdd aer
- Lliniaru llifogydd a gwella ansawdd dŵr
- Diogelu a gwella cynefinoedd bywyd gwyllt a bioamrywiaeth
- Gwella cymeriad ac edrychiad y tirlun lleol

Cymdeithasol

- Darparu cyfleoedd i blant chwarae
- Darparu cyfleoedd ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol
- Gwella iechyd a lles corfforol a meddyliol
- Gwella cydlyniant cymunedol drwy ddefnyddio mannau cymdeithasol a rennir
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol drwy ddarparu cyfleoedd hygyrch
- Darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu, datblygu, dathlu ac ati, drwy raglenni a digwyddiadau amrywiol.

Economaidd

- Gwella edrychiad ardal
- Creu cyfleoedd cyflogaeth, gwirfoddoli a dysgu uniongyrchol
- Cynyddu gwerth eiddo
- Annog buddsoddiad
- Diogelu cartrefi a busnesau drwy liniaru perygl o lifogydd
- Annog twristiaeth.

Sut mae hyn yn cyd-fynd gyda pholisïau a strategaethau eraill CBSW?

Bydd y Strategaeth (ar ôl ei mabwysiadu) yn cynrychioli'r Strategaeth drosfwaol, lle mae polisïau a phrotocolau CBSW eraill yn bodoli. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
- Addewid Chwarae CBSW
- Strategaeth Goed a Choetiroedd CBSW
- Strategaeth Rhandir
- Strategaeth Ardal Chwarae
- Cynlluniau Rheoli Parc Gwledig
- Creu Lleoedd Canol Dinas
- Cynlluniau Rheoli Cyfleusterau Pêl-droed